Torri'r iâ

Dweud Storïau

DEWCH AT EICH GILYDD
Dod â phobl ynghyd drwy fwyd
GET TOGETHERS
Bringing people together through food

COMMUNITY FUND

Sut i chwarae

Pan fyddwch yn cynnal digwyddiad Dewch at Eich Gilydd Bwyd am Oes, mae'n bosibl y byddwch yn dod â nifer o bobl ynghyd nad ydynt yn adnabod ei gilydd. Mae gofyn i bobl ddweud storïau am bethau y gallwn oll uniaethu â nhw yn ffordd hwyliog o gael pobl i ddod i adnabod ei gilydd. Gall hefyd gael y rhai nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus yn siarad â phobl newydd ar unwaith i symud o gwmpas yr ystafell.

Y bwriad yw siarad am bethau y gallwn oll uniaethu â nhw, heb fod pobl yn gorfod siarad amdanyn nhw eu hunain yn ormodol. Gall hynny ymddangos yn od, ond gall helpu pobl i ddod dros eu nerfau.

Awgrymiadau:

Gallech ofyn i bobl ysgrifennu eu storïau ar bapur hefyd, oherwydd gall hynny eu helpu i ystyried yr hyn y maen nhw am ei ddweud. Neu gallech ysgrifennu'r cwestiynau ar fwrdd gwyn neu ar bapur siart troi fel y gall pawb eu gweld. Dyma rai o'r cwestiynau rydym yn gwybod sy'n gweithio'n dda gyda grwpiau, ond gallwch lunio rhai eich hunain hefyd.

Beth yw'r pryd gorau gawsoch chi erioed? Dywedwch wrthym lle roeddech chi, pwy wnaeth ei goginio, ac os ydych wedi ceisio ei ail-greu erioed.

Beth oedd y peth newydd neu syfrdanol diwethaf y gwnaethoch ei ddysgu?

Beth yw'r un peth na allwch chi fyw hebddo a pham?